WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2016 – **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**


Blwyddyn archwilio: 2016

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 714A2016

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae cod adran 45 yn gosod allan yr arfer i'w ddilyn wrth drin ceisiadau a ddisgwylir o awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori gyda thrydydd partïon perthnasol. Yng nghyswllt y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ail-ddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru at swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Y tîm a wnaeth y gwaith oedd Dave Thomas, Carol Moseley, Michelle Phoenix a Fflur Jones.

# Cynnwys


Crynodeb o'r adroddiad

Cyd-destun 5

Canfyddiadau allweddol 6

Argymhellion 10

Adroddiad manwl

Gwnaeth yr Ymddiriedolaeth gynnydd wrth ddatblygu a gwella ei threfniadau i gefnogi rheolaeth ariannol, llywodraethiant a sicrwydd ac y mae'n ymwybodol o'r angen i gynnal cyflymdra a momentwm i ymdrin â'r heriau sydd weddill 12

Rheolaeth ariannol – mae gan yr Ymddiriedolaeth brosesau rheolaeth ariannol ddigonol ac yn cydnabod cyfleoedd pellach i gryfhau ac aeddfedu ei hagwedd 12

Cynllunio ariannol – mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cynllunio ariannol ond y mae'n ddibynnol ar y llif cyllid amserol y cytunwyd arno gyda'r Comisiynydd 12

Camau rheoli a stiwardiaeth ariannol – Mae gan yr Ymddiriedolaeth gamau rheoli ariannol, ond mae'n ceisio gwella mwy ar y rhain yn benodol yng nghyswllt cynnal ei chofrestr asedau sefydlog 13

Monitro ac adrodd ariannol – mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella ei hadrodd ariannol ac y mae ganddi gyfle am ddatblygu pellach 14

Perfformiad ariannol – llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gael cydbwysedd ariannol dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae'n wynebu heriau pellach yn 2016-17 i sicrhau ei ddyletswydd ariannol i gydbwyso incwm a gwariant 15

Llywodraethiant a sicrwydd - gwnaeth yr Ymddiriedolaeth gynnydd da i wella ei threfniadau cynllunio strategol a llywodraethiant trefniadau yn ystod 2016 ac y mae'n ymwybodol fod angen parhau â chyflymdra a momentwm er mwyn gwreiddio newidiadau ac ymdrin â phroblemau sydd weddill 16

Cynllunio strategol ac adrodd - bwriodd yr Ymddiriedolaeth ymlaen gyda'i hagwedd cynllunio strategol gan arwain at gynllun tymor canol integredig cymeradwy yn 2016 ac y mae wedi cydnabod cyfleoedd pellach i gryfhau trefniadau cynllunio 16

Effeithlonrwydd a sicrwydd y Bwrdd – mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos cyfeiriad cadarnhaol o ran datblygu ei threfniadau llywodraethiant a sicrwydd, ond y mae mwy i'w wneud 21

Cynnydd wrth ymdrin ag argymhellion blaenorol – gwnaeth yr Ymddiriedolaeth gynnydd da i ymdrin ag argymhellion yn yr asesiad strwythuredig blaenorol ac y mae'n cydnabod fod angen mwy o waith i ddatblygu a gwreiddio newidiadau yn llawn 27

## Atodiadau

Atodiad 1 – Ymateb y rheolwyr i argymhellion asesiad strwythuredig 2016 31

# Crynodeb o'r adroddiad

## Cyd-destun

1 Mae Asesiad Strwythuredig yn archwilio trefniadau'r Ymddiriedolaeth sydd yn cefnogi llywodraethiant da a'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Dros y blynyddoedd diwethaf, bu'r gwaith yn asesu cadernid trefniadau rheolaeth ariannol, pa mor ddigonol oedd y trefniadau llywodraethiant, rheolaeth galluogwyr allweddol sydd yn cefnogi'r defnydd effeithiol o adnoddau, a'r cynnydd a wnaed wrth ymdrin â materion gwella a oedd eisoes wedi eu hadnabod. Canfu ein gwaith yn 2015 fod 'trefniadau, sy'n cefnogi llywodraethiant da a'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau yn parhau i esblygu, ond fod angen mwy o welliant mewn rhai meysydd pwysig.'

2 Mae gwaith Asesiad Strwythuredig yn 2016 eto wedi adolygu trefniadau rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth a'r cynnydd a wnaed i ymdrin ag argymhellion y flwyddyn flaenorol. Eleni, rydym hefyd wedi gwneud gwaith cymharol mewn tri maes. Sail i'r meysydd a ddewiswyd a'r cwmpas oedd yn sail o wybodaeth i'n dadansoddiad ni o faterion perthnasol i Gymru gyfan a thrafodaethau gydag Ysgrifenyddion Byrddau. Mae'r meysydd gwaith cymharol yn cynnwys yr isod:

- fformat adrodd ariannol i'r Byrddau;
- trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau tymor canol integredig (CTCI); a monitro ac adrodd ar gyflawni'r cynlluniau hyn; ac
- agweddau ar gyfer mapio risgiau a sicrwydd a datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd[1] (FfSB).

3 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion canfyddiadau ein harchwiliad lleol i'r Ymddiriedolaeth. Pan fyddwn wedi cwblhau'r adrodd archwiliad lleol, byddwn yn cwblhau dadansoddiadau Cymru-gyfan ar y tri maes gwaith cymharol, i rannu gyda sefydliadau'r GIG a fforymau Cymru-gyfan perthnasol, megis cyfarwyddwyr cyllid, cyfarwyddwyr cynllunio a grwpiau ysgrifenyddion byrddau. Bwriad yr agwedd hon yw cefnogi dysgu, trwy rannu agweddau ac arferion da ar draws sefydliadau'r GIG.

4 Seilir ein canfyddiadau ar gyfweliadau, arsylwi pwyllgorau, adolygu dogfennau a data perfformiad, canlyniadau gwybodaeth gan Ysgrifenyddion Byrddau a Chyfarwyddwyr Cynllunio a chanlyniadau arolwg o aelodau Byrddau. Ymatebodd rhyw 119 o aelodau Byrddau i'n harolwg, cyfradd ymateb o 59%. Yr oedd hyn yn cynnwys naw ymateb (cyfradd ymateb o 53%) gan yr Ymddiriedolaeth. Carem ddiolch i'r aelodau hynny o'r Bwrdd a ymatebodd i'n harolwg am eu hamser a'u cyfraniadau.

5 Yn ystod 2016, parhaodd yr Ymddiriedolaeth ar drywydd cadarnhaol, gyda'r sylfeini i gefnogi llywodraethiant da bellach ar gael. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod

[1] Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn gosod allan y risgiau i gyrraedd yr amcanion corfforaethol, y camau mewnol i liniaru'r risgiau hynny a'r sicrwydd y mae'n rhaid i'r Bwrdd wybod fod y camau yn effeithiol a bod y risgiau yn cael eu rheoli.

fod angen mwy o waith i fireinio a gwreiddio yn llawn rai o'i drefniadau llywodraethiant, fel y trafodir yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, ac yn y rhan fwyaf o feysydd, mae cynlluniau ar gael i gyflawni'r gweithredoedd hyn.

6 Yn bwysig iawn, gwelodd yr Ymddiriedolaeth ei statws dan Drefniadau Dwysâd ac Ymyriad GIG Cymru[2] yn cael ei wneud yn llai dwys gan Lywodraeth Cymru ym Medi 2016, o fonitro uwch i drefniadau arferol. Mae'r newid cadarnhaol yn y statws dwys yn adlewyrchu perfformiad gwell yr Ymddiriedolaeth ers gweithredu'r model ymateb clinigol newydd a'r ffaith fod yr Ymddiriedolaeth wedi datblygu ei chynllun tymor-canol integredig (CTCI) cyntaf y gellid ei gymeradwyo yn 2016.

7 Mae datblygu gweledigaeth, gwerthoedd ac ymddygiad sefydliadol yn ddiweddar yn arwydd o ymrwymiad clir gan y Bwrdd i ddatblygu diwylliant sefydliadol. Ymgynghorwyd â thros fil o aelodau staff wrth ddatblygu'r ymddygiad a'r gwerthoedd, a ystyriwyd fel rhan o'r broses o osod yr amcanion corfforaethol a osodwyd allan yn CTCI 2016-19.

8 Cwblhawyd hefyd adolygiad galw a gallu a gomisiynwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn 2016. Mae'r gwaith hwn, oedd yn archwilio adnoddau'r sefydliad (gweithlu, stadau ac asedau), tueddiadau poblogaeth a galw am y gwasanaethau, yn cael ei ddefnyddio gan yr Ymddiriedolaeth fel sail o wybodaeth ac i gryfhau cynllunio a chyflwyno gwasanaethau ganddynt yn y dyfodol.

# Canfyddiadau allweddol

9 Ein casgliad cyffredinol o waith Asesiad Strwythuredig 2016 yw bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu a gwella ei threfniadau i gefnogi rheolaeth ariannol, llywodraethiant a sicrwydd a'i bod yn ymwybodol o'r angen i i gynnal cyflymdra a momentwm i ymdrin â'r heriau sydd weddill. Mae'r rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn wedi eu crynhoi isod.

## Cynllunio a rheolaeth ariannol

10 Wrth adolygu trefniadau cynllunio a rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth, cawsom fod gan yr Ymddiriedolaeth brosesau rheolaeth ariannol ddigonol a'i fod yn cydnabod cyfleoedd pellach i gryfhau ac aeddfedu ei hagwedd.

### Cynllunio ariannol: mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cynllunio ariannol ond y mae'n ddibynnol ar y llif cyllid amserol y cytunwyd arno gyda'r Comisiynydd

11 Mae cynllunio ariannol a gosod cyllidebau yn rhan annatod o agwedd cynllunio'r Ymddiriedolaeth ar gyfer y CTCI a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym Mehefin 2016. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau boddhaol ar gyfer cynllunio refeniw a chyfalaf gyda chyfrifoldeb cyllidebol yn cael ei ddirprwyo'n glir i ddeiliaid

[2] Trefniadau Dwysâd ac Ymyriad GIG Cymru, Mawrth 2014

cyllidebau sy'n gyson â'r cynllun dirprwyo. Er mwyn cael cydbwysedd ariannol yn 2016-17, mae cynlluniau gwella cost gwerth £6.2 miliwn yn sylfaen i'r gyllideb ariannol. Erbyn Hydref 2016, gwnaed gwerth £3.88 miliwn o arbedion. Fodd bynnag, sylwodd ein hadolygiad fod y cynlluniau sy'n cynnal y targed arbedion wedi eu gosod ar lefel uchel a bod angen eu cefnogi gan gynlluniau cyflwyno mwy manwl.

12 Cytunodd yr Ymddiriedolaeth ar y cyllid oedd ei angen i gyflwyno gwasanaethau am 2016-17 gyda'r Comisiynydd cyn cyflwyno'r CTCI i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, am 2016-17, nid yw Byrddau Iechyd Cymru eto wedi ymrwymo i'r lefel o gyllido sydd wedi ei gynnwys yn y CTCI ac nid yw'r Ymddiriedolaeth yn derbyn y llifau arian a ddisgwyliwyd. Mae trafodaethau'n dal i gael eu cynnal rhwng yr Ymddiriedolaeth, y Comisiynydd a'r Byrddau Iechyd i ddatrys hyn.

13 O edrych ymlaen, bydd yr adolygiadau galw a gallu a gweithredu'r model ymateb clinigol yn llawn yn helpu i gefnogi cynllunio ariannol mwy manwl a gwell.

### Camau rheoli ariannol a stiwardiaeth: Mae gan yr Ymddiriedolaeth gamau rheoli ariannol, ond mae'n ceisio gwella mwy ar y rhain yn benodol yng nghyswllt cynnal ei chofrestr asedau sefydlog

14 Mae gan yr Ymddiriedolaeth gamau rheoli ariannol, ac yn sail iddynt mae cyfarwyddiadau ariannol sefydlog, gorchmynion sefydlog a'r cynllun dirprwyo. Daeth yr archwiliad mewnol i'r casgliad y gall yr Ymddiriedolaeth fod yn rhesymol sicr fod trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a chamau rheoli mewnol wedi eu cynllunio'n addas a'u cymhwyso'n briodol. Cadarnhaodd gwaith archwilio mewnol penodol yn ymdrin â rheolaeth gyllidebol a llywodraethiant corfforaethol fod sicrwydd sylweddol yn y meysydd hyn.

15 Nododd ein Hadroddiad am yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym Mai 2016, nifer o feysydd lle'r oedd angen gwella. Yn bennaf, yr oedd y rhain yn ymwneud â chamau rheoli oedd yn cefnogi stiwardiaeth asedau.

### Monitro ac adrodd ariannol – mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella ei hadrodd ariannol ac y mae ganddi gyfle am ddatblygu pellach

16 Nododd ein hadolygiad fod gweithdrefnau adrodd ariannol yr Ymddiriedolaeth i'r Bwrdd ac i Lywodraeth Cymru yn gyson a phrydlon. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynhyrchu cofnodion monitro misol i Lywodraeth Cymru ac y mae'r adroddiadau ariannol mewnol yn cael eu hystyried bob deufis gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ac yn chwarterol gan y Bwrdd.

17 Datgelwyd y gorwario a'r problemau cyllido cysylltiedig a ddaeth i'w rhan yn ystod 2015-16 i'r Bwrdd yn gynnar, ynghyd â manylion o'r cyfathrebu oedd yn digwydd gyda Llywodraeth Cymru a'r gwahanol ddeilliannau oedd yn cael eu hystyried.

18 Yn ystod 2016-17, amlygodd adroddiadau ariannol i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a'r Bwrdd feysydd pryder allweddol i'r rheolwyr, gan gynnwys y ffaith nad yw Byrddau Iechyd Cymru eto wedi cytuno ar y cyllido gwaelodlin, a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwrdd â'r targed o £6.2 miliwn o arbedion. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella cyflwyniad adroddiad ariannol y Bwrdd trwy gynnwys mwy o naratif ar feysydd allweddol a chrynodeb o risgiau yn dangos yr effaith posib ar alldro am y flwyddyn.

### Perfformiad ariannol – llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gael cydbwysedd ariannol dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae'n wynebu heriau pellach yn 2016-17 i sicrhau ei ddyletswydd ariannol i gydbwyso incwm a gwariant

19 Yn 2015-16, medrodd yr Ymddiriedolaeth adrodd am warged bychan o £49,000. Fodd bynnag, yr oedd yr Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar lif cyllido allanol a derbyniodd gyllid ychwanegol heb fod yn gylchol gan Lywodraeth Cymru o £3.5 miliwn. Ar sail yr adroddiad monitro 12 mis i Lywodraeth Cymru, ni lwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyrraedd y targed o £5.565 miliwn o arbedion yn 2015-16, gan wneud arbedion o £4.606 miliwn, gyda £2.720 miliwn o hyn yn arbedion heb fod yn rhai cylchol.

20 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyrraedd y targed o £6.2 miliwn o arbedion yn 2016-17. Nododd yr adroddiad am gyflwyno arbedion i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ym Medi 2016 £882,000 (14%) fel meysydd risg uchel fyddai'n destun mwy o graffu. Erbyn Hydref 2016, llwyddwyd i wneud arbedion o £3.880 miliwn yn erbyn targed y flwyddyn hyd yma o £3.969 miliwn.

21 Mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu heriau cyson yn deillio o fwy o alw am ei gwasanaethau. Crybwyllodd y rheolwyr orwariant bychan yn Hydref 2016 o £122,000 oherwydd darparu mwy o gapasiti i gwrdd â'r galw yn gynnar yn y flwyddyn ariannol.

22 Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i ragweld sefyllfa ariannol gytbwys ar 31 Mawrth 2017 ond mae'n hanfodol fod Byrddau Iechyd Cymru yn cytuno ar y sefyllfa gyllido gwaelodlin ac y parheir i ganoli ar sicrhau cyflwyno'r cynlluniau cynilo sydd weddill.

## Llywodraethiant a sicrwydd

23 Wrth adolygu trefniadau llywodraethiant corfforaethol a sicrwydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, cawsom fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran gwella ei threfniadau cynllunio strategol a llywodraethiant yn ystod 2016 a'i bod yn ymwybodol fod angen parhau â chyflymdra a momentwm er mwyn gwreiddio newidiadau ac ymdrin â'r problemau sydd weddill.

Cynllunio strategol ac adrodd - bwriodd yr Ymddiriedolaeth ymlaen gyda'i hagwedd cynllunio strategol gan arwain at gynllun tymor canol integredig (CTCI) cymeradwy yn 2016 ac y mae wedi cydnabod cyfleoedd pellach i gryfhau trefniadau cynllunio

24 Datblygodd yr Ymddiriedolaeth ei CTCI cyntaf y gellid ei gymeradwyo yn 2016, nad oedd yn destun unrhyw amodau cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Yn sail i'r CTCI mae cynlluniau cyflwyno lleol ar gyfer pob uned weithredol, sydd mewn gwirionedd yn ymestyn dros bob un o ardaloedd y saith bwrdd iechyd.

25 Cryfhaodd yr Ymddiriedolaeth yr agwedd gynllunio ar gyfer ailadrodd y CTCI yn 2017 fel bod y broses ddatblygu wedi ffurfioli yn well, a'i fod yn fwy cyson ar draws y cynlluniau cyflwyno lleol ac yn cefnogi yn well gyflwyno nod strategol yr Ymddiriedolaeth.

26 Rhoddir adroddiad ar gyflwyno'r CTCI cyfredol bob chwarter i'r Bwrdd gyda chynnydd yn erbyn y pedair rhaglen newid strategol penodol sy'n sail i'r CTCI yn cael ei fonitro'n fisol gan grŵp gweithredol cyflwyno a sicrwydd (iDAG) y CTCI. Mae cyflwyno'r CTCI wedi ei gefnogi gan agwedd o gynllunio prosiectau, ac er bod peth capasiti cynllunio a rheoli rhaglenni, ymddengys bod yr Ymddiriedolaeth yn cynnal digon o gyflymdra wrth gyflwyno'r CTCI a'i brosiectau cysylltiedig.

Effeithlonrwydd a sicrwydd y Bwrdd – mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos cyfeiriad cadarnhaol o ran datblygu ei threfniadau llywodraethiant a sicrwydd, ond y mae mwy i'w wneud

27 Wrth ddod i'r casgliad hwn, fe welsom:

- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd: mae'r Ymddiriedolaeth wedi meddwl am ei drefniadau sicrwydd ac wedi sefydlu'r elfennau adeiladu hanfodol, ond nid yw eto wedi dogfennu ei Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd na gweithredu ei Fframwaith Rheoli Risg newydd yn llawn; ac
- Effeithlonrwydd y Bwrdd a Phwyllgorau: cymerodd yr Ymddiriedolaeth gamau i gryfhau trefniadau llywodraethiant, ond erys rhai gwendidau a all gyfyngu ar effeithlonrwydd cyffredinol y trefniadau.

28 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gosod yr elfennau adeiladu hanfodol i fod yn sail i ddylunio ei Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Datblygwyd blaenoriaethau corfforaethol clir sydd yn canoli ar y cleifion, a bu aelodau'r bwrdd wrthi yn ystyried ffurf a swyddogaeth y fframwaith. Bu'r rhain yn gamau dylunio hanfodol, ond yn awr, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth ddogfennu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd y cytunwyd arno.

29 Cytunwyd yn ddiweddar ar Fframwaith Rheoli Risg newydd, gyda chynlluniau manwl i weithredu a gwreiddio yn llawn y fframwaith trwy hyfforddiant a phrosesau TGCh newydd. Mae'r agwedd gryfach newydd at reoli risg yn adlewyrchu nod yr Ymddiriedolaeth o ddod yn sefydliad 'galluogwyd at risg' erbyn 2018-19.

30 Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn effeithiol, a chyflwynwyd cylch daearyddol o gyfarfodydd i hybu mwy o ymwneud gan randdeiliaid. Mae aelodau yn craffu ac yn

herio yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau, er bod cyfleoedd i gryfhau rhai elfennau. Mae'r rhain yn cynnwys egluro rôl ac asio is-grwpiau ansawdd a rhai sy'n ymwneud â diogelwch, gan ddefnyddio hunanasesiad y Bwrdd a phwyllgorau yn fwy cyson a chryfhau'r gwasanaeth gwrth-dwyllo. Mae cyfleoedd hefyd i gryfhau mwy ar rai agweddau o drefniadau'r Bwrdd a Phwyllgorau, megis sicrhau prydlondeb papurau a phennu meini prawf ar gyfer eitemau agenda agored a chaeedig.

### Ymdrin ag argymhellion blaenorol – gwnaeth yr Ymddiriedolaeth gynnydd da i ymdrin ag argymhellion yn yr asesiad strwythuredig blaenorol ac y mae'n cydnabod fod angen mwy o waith i ddatblygu a gwreiddio newidiadau yn llawn

31 Dengys ein hadolygiad fod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud ymdrech lew i ymdrin ag argymhellion ein Hasesiad Strwythuredig blaenorol. Gwnaed cynnydd da, ond lle nad yw'r argymhellion eto yn gyflawn, mae gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau i wneud y cynnydd pellach sydd ei angen i gwrdd a gwireddu'n llawn â manteision arfaethedig yr argymhellion. Mae trefniadau ar gael hefyd i olrhain a chraffu ar y cynnydd a wnaed yn erbyn holl argymhellion yr archwiliad, er bod cyfle i gryfhau mwy ar y trefniadau hyn.

# Argymhellion

32 Mae manylion yr argymhellion sy'n deillio o waith Asesiad Strwythuredig 2016 yn Arddangosyn 1. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth hefyd barhau i ganoli ar weithredu unrhyw argymhellion blaenorol nad ydynt eto'n gyflawn.

33 Mae ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth sy'n rhoi manylion am sut y bwriadant ymateb i'r argymhellion hyn yn Atodiad 1.

### Arddangosyn 1: 2016 argymhellion

Mae'r tabl isod yn gosod allan yn argymhellion Asesiad Strwythuredig 2016.

| **Argymhellion2016** | |
|---|---|
| A1 | Sicrhau cyflwyno'r cynlluniau arbedion yn effeithiol:<br>Datblygu cynlluniau cyflwyno mwy manwl i gefnogi rhaglenni gwella cost. |
| A2 | Cryfhau camau rheoli asedau, ymdrin â'r gwelliannau angenrheidiol a nodwyd yn adroddiad cyfrifon SAC a'r Memorandwm Archwilio Cyfrifon Terfynol. |
| A3 | Cryfhau trefniadau ar gyfer monitro cyflwyno'r CTCI:<br>a. Rhoi ystyriaeth ehangach i gynnydd CTCI trwy'r grŵp cyflwyno a sicrwydd y CTCI (iDAG), yn ychwanegol at fonitro rhaglenni newid strategol.<br>b. Cadarnhau a fydd craffu ar gyflwyno'r CTCI yn parhau fel un o swyddogaethau'r Bwrdd neu a gaiff ei gynnal trwy drefniadau pwyllgor. |

| Argymhellion2016 | |
|---|---|
| A4 | Gwella mwy ar drefniadau llywodraethiant a chamau rheoli mewnol y Bwrdd a Phwyllgorau:<br>a. Sicrhau y derbynnir papurau pwyllgorau yn gyson brydlon.<br>b. Diffinio meini prawf am yr hyn yw eitemau agenda agored/caeedig.<br>c. Datblygu defnydd mwy cyson o hunanasesiad fel erfyn i adolygu effeithiolrwydd pwyllgorau, yn ogystal â'r Bwrdd.<br>d. Cwblhau mapio is-grwpiau rheoli a llif sicrwydd i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch.<br>e. Datblygu'r gwasanaeth gwrth-dwyll fel y gall ymchwilio'n gadarn a mynd ati yn well i leihau'r perygl o dwyll. |
| A5 | Cryfhau monitro a chraffu ar gynnydd yn erbyn argymhellion yr archwiliad:<br>a. Sicrhau bod yr erfyn olrhain yn cynnwys holl argymhellion yr archwiliad.<br>b. Ystyried defnyddio crynodeb o wybodaeth a mwy o swyddogion gweithredol yn mynychu'r Pwyllgor Archwilio i graffu'n well ar gynnydd. |
| A6 | Gofalu bod yr holl wybodaeth a ragnodwyd ar gael i'r cyhoedd, asesu cynnwys a hygyrchedd gwefan yr Ymddiriedolaeth i gadarnhau yr atebir holl ofynion Cylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 033 yn llawn. |
| A7 | Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau clir a chyfoes yr Ymddiriedolaeth ar gael:<br>a. Datblygu 'polisi ar bolisïau' yn nodi'r broses y cytunwyd arni ar gyfer adolygu, cyfoesi a chymeradwyo polisïau.<br>b. Cwblhau adolygu, cyfoesi a chymeradwyo polisïau allweddol nad ydynt yn gyfoes ar hyn o bryd, gan gynnwys gwybodaeth am bolisïau diogelwch a gweithdrefnau safonol gweithredu TGCh. |
| A8 | Lleihau cost salwch ac adeiladu sgiliau a gallu'r gweithlu, gweithredu pellach i leihau lefelau salwch a chynyddu cyfraddau cwblhau ar gyfer hyfforddi gorfodol ac adolygiadau mantoli a datblygu personol (AMDP). |
| A9 | Ymdrin yn llawn ag argymhellion yr asesiad strwythuredig blaenorol i gryfhau sicrwydd y bwrdd erbyn y dyddiad arfaethedig o 31 Mawrth 2017, gan gynnal y cyflymdra i wneud y canlynol:<br>a. Gweithredu'n llawn y fframwaith asesu risg a chymhwyso sgorio risg yn gyson.<br>b. Cwblhau mapio sicrwydd y bwrdd a dogfennu a chymeradwyo Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. |
| A10 | Sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud y defnydd gorau o'i stad, cwblhau datblygu strategaeth stadau erbyn y dyddiad arfaethedig o 31 Mawrth 2017. |

34 Yn ychwanegol at yr argymhellion hyn, mae cyfleoedd eraill am welliannau wedi eu hamlygu yn yr adroddiad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys y potensial i wella mwy ar fformat adrodd ariannol ac am berfformiad i'r Bwrdd, fel y trafodwyd ym mharagraff 51 ac Arddangosyn 5.

# Adroddiad manwl

## Gwnaeth yr Ymddiriedolaeth gynnydd wrth ddatblygu a gwella ei threfniadau i gefnogi rheolaeth ariannol, llywodraethiant a sicrwydd ac y mae'n ymwybodol o'r angen i gynal cyflymdra a momentwm i ymdrin â'r heriau sydd weddill

34 Mae manylion y canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn i'w gweld isod.

### Rheolaeth ariannol - mae gan yr Ymddiriedolaeth brosesau rheolaeth ariannol ddigonol ac yn cydnabod cyfleoedd pellach i gryfhau ac aeddfedu ei hagwedd

35 Mae ein gwaith asesu strwythuredig yn 2016 wedi ystyried y camau a gymer yr Ymddiriedolaeth i gyrraedd cydbwysedd ariannol a chreu cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy. Rydym wedi asesu sefyllfa ariannol y sefydliad, yr agwedd at gynllunio ariannol, camau rheoli ariannol a stiwardiaeth, a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ariannol. Mae ein canfyddiadau i'w gweld isod.

#### Cynllunio ariannol - mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cynllunio ariannol ond y mae'n ddibynnol ar y llif cyllid amserol y cytunwyd arno gyda'r Comisiynydd

36 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau boddhaol ar gyfer cynllunio refeniw a chyfalaf, gyda chyfrifoldeb cyllidebol wedi ei ddirprwyo'n glir i ddeiliaid cyllidebau yn unol â'r cynllun dirprwyo. Yr oedd gofyn i ddeiliaid cyllidebau gytuno'n ffurfiol ar eu cyllidebau am 2016-17, gan gynnwys yr arbedion a'r camau effeithlonrwydd oedd ganddynt ar y gweill am y flwyddyn. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Grŵp Cynllunio Cyfalaf Mewnol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros reoli a monitro'r rhaglen gyfalaf ddewisol. Bydd pob adran a phennaeth gwasanaeth yn cyflwyno achosion busnes cyfalaf dewisol, ac y mae'r rhain yn cael eu gwirio gan y tîm cyllid. Caiff pob bid ei asesu a'i sgorio yn erbyn meini prawf diffiniedig cyn cael eu blaenoriaethu.

37 Cynhyrchodd yr Ymddiriedolaeth CTCI am y cyfnod 2016-19 a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym Mehefin 2016. Cytunodd yr Ymddiriedolaeth ar y cyllid angenrheidiol i gyflwyno gwasanaethau am 2016-17 gyda'r Comisiynydd cyn cyflwyno'r CTCI i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, am 2016-17, nid yw Byrddau Iechyd Cymru eto wedi ymrwymo i'r lefel o gyllido sydd wedi ei gynnwys yn y CTCI ac nid yw'r Ymddiriedolaeth yn derbyn y llifau arian a ddisgwyliwyd. Mae trafodaethau'n dal i gael eu cynnal rhwng yr Ymddiriedolaeth, y Comisiynydd a'r Byrddau Iechyd i ddatrys hyn, gyda Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan. Bydd yn bwysig hefyd i'r Ymddiriedolaeth barhau i weithio gyda'r Comisiynydd a Byrddau Iechyd Cymru i sefydlu cynlluniau cyllido at y tymor hir i'r dyfodol.

38 Mae’r Ymddiriedolaeth wedi nodi gwelliannau, effeithlonrwydd a thargedau arbedion cost sydd angen eu gwneud i gael cydbwysedd ariannol. Fel y nodwyd yn y CTCI, ni chyflwynodd yr Ymddiriedolaeth y lefel angenrheidiol o arbedion cylchol yn 2015-16 ac felly yr oedd angen cynnwys mwy o arbedion yn nharged arbedion 2016-17. Cyfanswm yr arbedion sydd eu hangen yn 2016-17 yw £6.2 miliwn.

39 Mae’r Ymddiriedolaeth yn adrodd am y cynlluniau gwella cost fydd eu hangen i gynnal y lefelau angenrheidiol o arbedion yn 2016-17. Nododd ein hadolygiad fod rhai o’r cynlluniau gwella cost ar lefel uchel a bod angen eu cefnogi gan gynlluniau cyflwyno mwy manwl. Dyma rai enghreifftiau:

a. Lleihau cyfraddau salwch: £0.6m o arbedion a nodwyd er mai gan yr Ymddiriedolaeth y mae’r cyfraddau salwch uchaf yn GIG Cymru;

b. Menter tâl newidiol: £1m o arbedion a nodwyd trwy wella effeithlonrwydd cylchol swyddi, adolygu toriadau prydau bwyd, ail-alinio DPP gweithredol;

c. Llai o ddefnydd o ddarparwyr preifat: £1.3m o arbedion a nodwyd trwy leihau’r defnydd o Ambiwlans Sant Ioan a darparwyr preifat eraill;

d. Cynnal y fflyd a thanwydd: £1m o arbedion a nodwyd o adolygu contractau cynnal a thrwsio, ystyried dulliau newydd o wneud gwaith cynnal arferol a pharhad prisiau tanwydd isel; ac

e. Adolygu a lleihau treuliau: ystyried cynlluniau aberthu cyflogau, cyflwyno telemetreg i herio hawliadau yn erbyn yr Ymddiriedolaeth, adolygu’r defnydd o bolisïau tacsi a’r defnydd o ddefnyddwyr ceir gwirfoddol, adolygu adnewyddu lifrau ac arferion lleol.

40 Mae’r Ymddiriedolaeth yn cadw llygad barcud ar gynnydd y cynlluniau arbedion. Mae adroddiadau i’r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a’r Bwrdd yn nodi cyflwyno arbedion, gan gydnabod fod a wnelo’r arbediad sengl mwyaf â gwerthiant ased (£1miliwn) nad yw’n gylchol. Dylai’r Ymddiriedolaeth geisio nodi meysydd lle gellid gwneud arbedion a mesurau effeithlonrwydd mwy cynaliadwy, cylchol a chylchol.

41 Cynhaliwyd adolygiad galw a chapasiti gan ymgynghorwyr allanol, ac y mae eu canfyddiadau’n cael eu hystyried gan yr Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd. Bydd yr adolygiad yn help i’r Ymddiriedolaeth ddatblygu cynlluniau adnoddau strategol ar gyfer ei gweithlu a’i fflyd i gefnogi’r model ymateb clinigol newydd. Mae disgwyl i gynllunio ariannol ddatblygu ymhellach trwy gymhwyso’r gwaith hwn a gweithredu cyllidebu sail-sero.

### Camau rheoli a stiwardiaeth ariannol – Mae gan yr Ymddiriedolaeth gamau rheoli ariannol, ond mae’n ceisio gwella mwy ar y rhain yn benodol yng nghyswllt cynnal ei chofrestr asedau sefydlog

42 Mae gan yr Ymddiriedolaeth fframwaith clir o swyddogaethau a chyfrifoldebau ar sail o gyfarwyddiadau ariannol sefydlog, gorchmynion sefydlog a chynllun dirprwyo. Mae llawlyfr y gyllideb yn rhoi manylion am y cyfrifoldebau sy’n ymdrin ag agweddau allweddol o reolaeth ariannol megis rheolaeth gyllidebol, staffio, gwariant heb fod ar gyflogau, contractau, asedau a thwyll. Mae’r Pwyllgor Cyllid ac

Adnoddau a'r Pwyllgor Archwilio yn cyfrannu at gynnal y fframwaith rheoli ariannol. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu'r gorchmynion sefydlog yn ffurfiol, gan gynnwys gorchmynion ariannol sefydlog a'r gofrestr risg corfforaethol.

43 Ym Mai 2016, daeth archwiliad mewnol i'r casgliad y gall yr Ymddiriedolaeth gymryd sicrwydd rhesymol fod trefniadau i sicrhau fod llywodraethiant, rheoli risg a chamau rheoli mewnol wedi eu dylunio'n addas ac yn cael eu cymhwyso'n effeithiol yn dilyn y gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16. Cadarnhaodd gwaith archwilio mewnol penodol yn ymdrin â rheoli cyllidebol a llywodraethiant corfforaethol sicrwydd sylweddol yn y meysydd hyn. Mae canfyddiadau'r Archwiliad Mewnol yn destun camau rheolaeth ar hyn o bryd.

44 Nododd ein harchwiliad o adroddiad y datganiadau ariannol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym Mai 2016 nifer o feysydd sydd angen gwella. Yn bennaf, yr oedd y rhain yn ymwneud â chamau rheoli yn cynnal stiwardiaeth asedau. Gwnaethom adroddiad gydag argymhellion manwl i'r rheolwyr yn ein Memorandwm Archwilio Cyfrifon Terfynol yn ymdrin â meysydd megis cynnal y gofrestr asedau sefydlog, cyfalafu costau staff a gwaredu asedau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu cynlluniau gweithredu i ymdrin â'r gwelliannau angenrheidiol a nodwyd.

### Monitro ac adrodd ariannol – mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella ei hadrodd ariannol ac y mae ganddi gyfle am ddatblygu pellach

45 Mae rheolaeth ariannol effeithiol yn bwysig os yw cyrff iechyd am gyflwyno gwell deilliannau iechyd, gwasanaethau a gwerth am arian. Er mwyn canoli ymdrechion yn briodol a gwneud penderfyniadau da, mae ar fyrddau GIG wybodaeth ariannol gadarn a dehongli treiddgar am berfformiad ariannol y sefydliad, sydd wedi'u cysylltu'n glir ag amcanion a pherfformiad cyffredinol yn erbyn yr amcanion hynny, mewn cyd-destun strategol.

46 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynhyrchu adroddiadau monitro misol i Lywodraeth Cymru ac adroddiadau ariannol mewnol a ystyrir bob deufis gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ac yn chwarterol gan y Bwrdd. Mae'r Adran Gyllid yn cwblhau ei phroses adrodd diwedd mis o fewn pum diwrnod gwaith o ddiwedd y mis, gydag adroddiadau monitro Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflwyno erbyn y nawfed diwrnod bob mis.

47 Mae adrodd am y sefyllfa ariannol i'r Bwrdd yn ystod 2015-16 yn datgelu'n glir y sefyllfa o orwario yn deillio o gynnydd mewn gweithgaredd yn gynnar. Adroddodd papurau bwrdd yr Ymddiriedolaeth am drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a'r gwahanol ddeilliannau oedd yn cael eu hystyried. Rhoes Llywodraeth Cymru £3.5 miliwn ychwanegol nad oedd yn gylchol i gefnogi'r gwariant ychwanegol a ddaeth i ran yr Ymddiriedolaeth.

48 Mae adroddiadau i'r bwrdd yn ystod 2016-17 wedi parhau i gynnwys y meysydd pryder allweddol i'r rheolwyr, gan gynnwys y diffyg cytundeb ar gyllid gwaelodlin y

Gwasanaethau Meddygol Brys (GMB) a chynnydd yn erbyn y targed arbedion o £6.2 miliwn.

49 Ochr yn ochr â'n gwaith Asesiad Strwythuredig, gwnaethom ddadansoddiad cymharol o gynnwys adroddiadau ariannol yng nghyrff y GIG yng Nghymru. Gwelsom fod adrodd ariannol yr Ymddiriedolaeth yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr ac yn cymharu'n ffafriol a chyrff eraill y GIG yng Nghymru parthed:

- prydlondeb data yr adroddwyd amdano; a
- defnyddio dashfyrddau am berfformiad targedau a graffiau yn dangos y sefyllfa ariannol a thargedau arbedion.

50 Gwelsom gyfle hefyd i gryfhau mwy ar yr adrodd ariannol trwy gynyddu'r naratif ar feysydd allweddol yn yr adroddiadau ariannol a chan gynnwys crynodeb o risgiau yn dangos yr effaith posib ar alldro am y flwyddyn. Hefyd, gellid gwella'r cysylltiad rhwng meysydd gorwario a'r ffactorau achosol sylfaenol, diwygio a gweithgaredd cyflwyno gwasanaethau. Caiff adroddiad manylach ar wahân fydd yn cyflwyno'r dadansoddiad cymharol o adroddiadau ariannol ei rannu gyda chyrff y GIG yn gynnar yn 2017.

### Perfformiad ariannol – llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gael cydbwysedd ariannol dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae'n wynebu heriau pellach yn 2016-17 i sicrhau ei ddyletswydd ariannol i gydbwyso incwm a gwariant

51 Mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu'n drwm ar gytundeb a llif ei chyllid o gyrff allanol. Yn y blynyddoedd a aeth heibio, derbyniwyd cyllid ychwanegol (£7.5 miliwn yn 2014-15 ac £8 miliwn yn 2015-16) gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC) i gynnal lefelau ychwanegol o weithgaredd. Cydnabu'r Comisiynydd y lefel gynyddol hon o weithgaredd, a chynhwyswyd y cyllid fel elfen gylchol yn y CTCI cyfredol am 2016-19.

52 Yn 2015-16, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth hefyd gyllid ychwanegol o £3.5m gan Lywodraeth Cymru i gynnal y galw ychwanegol am ei gwasanaethau a'r costau ychwanegol a ddaeth i'w rhan gyda chyflwyno'r model ymateb clinigol newydd. Heb yr arian ychwanegol hwn, ni fyddai'r Ymddiriedolaeth wedi cyrraedd sefyllfa ariannol gytbwys am y flwyddyn.

53 Mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu heriau o fwy o alw am ei gwasanaethau yn 2016-17 ac adroddodd y rheolwyr am orwariant bychan hyd at Hydref 2016 o £122,000.

54 Fel y dywedwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, er y cytunwyd ar y cyllid gwaelodlin GMB am 2016-17 gyda'r Comisiynydd cyn cyflwyno'r CTCI i Lywodraeth Cymru, nid yw Byrddau Iechyd Cymru wedi cytuno'n ffurfiol eto i lefel y cyllid. Ni fydd yr Ymddiriedolaeth yn llwyddo i gyrraedd ei berfformiad ariannol fel y cytunwyd arno heb gytundeb a llif y cyllid hwn.

55 Ar sail yr adroddiad monitro 12 mis i Lywodraeth Cymru, ni chyrhaeddodd yr Ymddiriedolaeth ei tharged o £5.565 miliwn o arbedion yn 2015-16, gan arbed £4.606 miliwn (£2.720 miliwn o'r rhain yn arbedion heb fod yn rhai cylchol). Y

targed arbedion am 2016-17 yw £6.2 miliwn, a llwyddwyd i arbed £3.880 miliwn erbyn Hydref 2016 yn erbyn targed am y flwyddyn hyd yma o £3.969 miliwn. Dywed yr Ymddiriedolaeth, er bod rhai o'r cynlluniau arbed hyn yn cadw at y cynllun, fod rhai ar ei hôl hi. Yr oedd yr adroddiad am gyflwyno arbedion i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ym Medi 2016 yn cynnwys asesiad o'r risg cysylltiedig â chyrraedd yr arbedion, a nododd £882,000 (14%) fel meysydd risg uchel y byddai angen mwy o graffu arnynt.

56 Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i ragweld sefyllfa ariannol gytbwys ar 31 Mawrth 2017 ond mae'n hanfodol i fyrddau iechyd Cymru gytuno ar y sefyllfa gwaelodlin cyllid, a chynnal y canolbwynt er mwyn sicrhau y cyflawnir gweill y cynlluniau arbedion.

## Llywodraethiant a sicrwydd – gwnaeth yr Ymddiriedolaeth gynnydd da i wella ei threfniadau cynllunio strategol a llywodraethiant trefniadau yn ystod 2016 ac y mae'n ymwybodol fod angen parhau â chyflymdra a momentwm er mwyn gwreiddio newidiadau ac ymdrin â phroblemau sydd weddil

57 Mae ein gwaith Asesiad Strwythuredig yn 2016 wedi archwilio trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer datblygu Cynllun Tymor Canol Integredig (CTCI),adrodd ar gyflwyno'r cynllun, a'r agwedd ar gyfer datblygu ac adolygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (FfSB). Yr ydym hefyd wedi ystyried effeithlonrwydd cyffredinol y Bwrdd a'i strwythurau llywodraethiant a'r cynnydd a wnaed mi ymdrin ag argymhellion a materion gwella yn yr asesiad strwythuredig blaenorol. Mae ein canfyddiadau i'w gweld isod.

### Cynllunio strategol ac adrodd - bwriodd yr Ymddiriedolaeth ymlaen gyda'i hagwedd cynllunio strategol gan arwain at gynllun tymor canol integredig (CTCI) cymeradwy yn 2016 ac y mae wedi cydnabod cyfleoedd pellach i gryfhau trefniadau cynllunio

58 Mae ein canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn wedi eu seilio ar ein hadolygiad o agwedd yr Ymddiriedolaeth at gynllunio strategol[3], a'i threfniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflwyno'r CTCI. Yr ydym hefyd wedi ystyried y trefniadau sydd y cefnogi rhaglenni newid strategol sy'n sail i'r CTCI a'r cynnydd a wnaed i ymdrin ag argymhellion blaenorol yn ymwneud â chynllunio strategol.

[3] Nid yw gwaith archwilio wedi dyblygu gwaith craffu Cynllun Tymor Canolig Integredig Llywodraeth Cymru, ond mae wedi ystyried camau gweithredu a gymerwyd gan gyrff GIG mewn ymateb i unrhyw adborth Llywodraeth Cymru ynghylch y cynllun neu amodau i gymeradwyo y cynllun.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau trefniadau cynllunio strategol wedi i'w CTCI cyntaf gael ei gymeradwyo yn 2016

59 Fel y nodwyd eisoes, cafodd yr Ymddiriedolaeth gymeradwyaeth i'w CTCI am y tro cyntaf yn 2016. Datblygwyd cynllun 2016-19 yn unol â Chanllawiau Cynllunio GIG Cymru ac nid oedd yn destun unrhyw amodau cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

60 Mae datblygu'r CTCI wedi'i arwain gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad, gyda'r Cyfarwyddwr Cysylltiol Rhaglenni yn rhoi trosolwg o'r gwaith datblygu ac yn ei gyd-gordio. Mae Tîm Cynllunio Integredig, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Cysylltiol Rhaglenni, yn cefnogi ac yn cynnal goruchwyliaeth feunyddiol ar ddatblygu'r CTCI, ac yn sicrhau ystyriaeth swyddogaethol ac ymwneud ar draws meysydd busnes allweddol. Mae ymwneud cyfarwyddwyr cysylltiol ar gyfer swyddogaethau corfforaethol megis gweithlu, cyllid ac ansawdd yn beth cadarnhaol o ran creu mwy o allu cynllunio 'rhithiol' ac adeiladu perchenogaeth sefydliadol ehangach o'r CTCI.

61 Cynhyrchodd yr Ymddiriedolaeth ganllawiau cynllunio cyfoes sydd yn ffurfioli'r trefniadau cynllunio a'r amserlen ar gyfer amserlenni cylchoedd cynllunio'r presennol a'r dyfodol. Ymysg camau datblygu allweddol y CTCI a adeiladwyd i mewn i'r broses mae:

- Diwrnod Datblygu'r Bwrdd ym mis Gorffennaf i gynnal adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd o'r cylch cynllunio diwethaf, edrych ymlaen at y cylch newydd, a gosod unrhyw ganllawiau penodol neu gyd-destun ar gyfer adnewyddu'r CTCI.
- Cychwynnir drafftio'r CTCI ym mis Medi yn dilyn cwblhau'r Cynlluniau Cyflwyno Lleol (CCLl), sy'n gydran allweddol o'r CTCI. Mae'r CCLl hefyd yn fecanwaith allweddol i sicrhau bod yr uned weithredol yn ymwneud â CTCI y sefydliad ac yn cyfrannu ato.
- Amser penodol gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Hydref i adolygu'r egin- CTCI, gydag adborth y Bwrdd yn cael ei ddefnyddio i fireinio cynllunio a datblygu'r drafft ffurfiol cyntaf o'r CTCI i'r Bwrdd ei gymeradwyo ym mis Ionawr.
- Mae adborth ar y drafft cyntaf gan y Bwrdd, Llywodraeth Cymru, y Prif Gomisiynydd Ambiwlans a'r byrddau iechyd yn cael ei ystyried, cyn cynhyrchu'r cynllun terfynol, ei ystyried a'i gymeradwyo'n ffurfiol gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.
- Mae cyfoesiadau am ddatblygiad y CTCI yn cael eu rhoi gan y tîm rheoli gweithredol yn fisol. Mae cyfoesiadau rheolaidd hefyd yn mynd i'r Bwrdd fel rhan o adrodd am y datblygiadau diweddaraf gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad Bwrdd fel rhan o'r cyfoesi cyffredinol. Mae pwyntiau cyffwrdd ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd yn bodoli hefyd gyda'r Prif Gomisiynydd Gwasanaeth Ambiwlans fel rhan o'r cylch cynllunio.

62 Yr oedd gwaith yr Ymddiriedolaeth ar bwrpas, gweledigaeth ac ymddygiad y sefydliad yn fframwaith pwysig i ddatblygu'r CTCI cyntaf yn ystod 2015-16, gan fabwysiadu agwedd dan arweiniad y rheng flaen. Mae Cynlluniau Cyflwyno Lleol (CCLl) yn cael eu datblygu gan bob adran gorfforaethol ac uned weithredol, ac y maent yn sail i CTCI yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Cytundeb Fframwaith Comisiynu Cydweithredol (CFfCC), sy'n gosod allan ddisgwyliadau a gofynion y comisiynwyr, yn sbardun allweddol i ymdrechion yr Ymddiriedolaeth i asio cynlluniau'r Ymddiriedolaeth gyda rhai sefydliadau sy'n bartneriaid.

63 Yr oedd ymwneud â phartneriaid, megis byrddau iechyd, yn egwyddor gynllunio allweddol ar gyfer datblygu CCLl yn 2015-16. Cafodd camau ar y cyd, er enghraifft, datblygu llwybrau ar y cyd, eu mapio rhwng CTCI yr Ymddiriedolaeth a chynlluniau sefydliadau oedd yn bartneriaid. Cafodd asio ar draws y cynlluniau ei brofi trwy grŵp y Cyfarwyddwr Cynllunio Cynorthwyol. Cafodd gweithdai rhyngddibyniaeth eu defnyddio hefyd yn fewnol i roi prawf ar y CCLl a'u mireinio ar draws y CCLl corfforaethol a gweithredol.

64 Dengys ymatebion i'n harolwg o aelodau'r Bwrdd fod aelodau'r Bwrdd yn yr Ymddiriedolaeth yn teimlo fod y sefydliad yn ymwneud yn effeithio gyda phartneriaid mewnol (staff ac arweinwyr clinigol), ond fod lle i wella ymwneud â rhanddeiliaid allanol (cleifion a phartneriaid). Mae hyn yn rhywbeth mae'r Ymddiriedolaeth yn gydnabod ac yn ymdrin ag ef. Cymeradwywyd fframwaith ymwneud gan y Bwrdd yn Rhagfyr 2016 gyda chynllun cyflwynom i'w adolygu gan y Bwrdd ym Mawrth 17. Bydd y fframwaith ymwneud newydd yn sail o wybodaeth i weithredoedd rhanddeiliaid yr Ymddiriedolaeth at y dyfodol.

65 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi manteisio ar y cyfle i wella eu prosesau i ddatblygu CCLl ar gyfer ailadrodd y CTCI yn 2017. Bydd y CCLl yn awr yn ymestyn dros gyfnod od air blynedd yn hytrach na blwyddyn, i integreiddio'n well gyda'r CTCI 3 blynedd. Bydd cyflwyno model partner busnes yn rhoi mwy o gefnogaeth cynllunio i dimau gweithredol a chorfforaethol, a bydd yr adolygiad galw a gallu diweddar hefyd yn sail o wybodaeth i ailadrodd CTCI yr Ymddiriedolaeth yn 2017.

### Mae trefniadau i fonitro ac adrodd ar gyflwyno'r CTCI ar gael, ond bydd angen eu hadolygu i gwrdd â gofynion Fframwaith Cynllunio'r GIG am 2017-20

66 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi mapio'r 154 cam yn ymwneud â chyflwyno CTCI 2016-17, o ran y cerrig milltir a'r cyfrifoldebau cysylltiedig. Wedi'i ddogfennu fel atodiad i'r CTCI, mae'r log gweithredoedd hwn yn sail cynllun prosiect a defnyddir erfyn olrhain camau manwl i fonitro cynnydd cyflwyno'r CTCI. Neilltuwyd y cyfrifoldeb dros bob cam ac ymrwymiad yn y CTCI naill ai i raglen newid strategol neu i gyfarwyddwr gweithredol penodol. Dengys ymatebion i'n harolwg o aelodau'r bwrdd fod aelodau'r Bwrdd yn ystyried bod swyddogaethau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd ar gyfer cyflwyno'r CTCI wedi eu diffinio'n glir a'u deall.

67 Mae'r camau hynny a gyflwynir trwy'r rhaglenni newid strategol yn cael eu holrhain trwy Grŵp Cyflwyno Sicrwydd (iDAG) y CTCI. Mae pob cam arall yn cael ei fonitro trwy adolygiadau perfformiad chwarterol gyda phob cyfarwyddwr. Yn ychwanegol

at y log gweithredoedd CTCI, y Cynlluniau Cyflwyno Lleol (CCLl) yw'r arfau allweddol ar gyfer olrhain cyflwyno gweithredoedd. Mae mecanweithiau ar gael hefyd i godi materion i lefel uwch pe cyfyd yr angen, naill ai trwy'r byrddau rhaglen newid strategol neu'r adolygiadau perfformiad chwarterol. Lle bo angen, bydd yr iDAG yn gweithredu i ddatrys problemau, neu fel eithriad, i godi unrhyw faterion sy'n achosi pryder gyda'r Tîm Rheoli Gweithredol llawn, sy'n cyfarfod bob pythefnos.

68 Yn ychwanegol at adrodd yn rheolaidd am berfformiad, mae'r iDAG yn darparu adroddiad cynnydd misol yn erbyn cyflwyno'r rhaglen newid strategol i'r Tîm Rheoli Gweithredol. Bydd y Bwrdd yn derbyn adroddiad chwarterol ffurfiol ar gyflwyno'r CTCI yn gyffredinol. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar erfyn olrhain y CTCI ac yn ymgorffori cyfoesiadau ar y rhaglen strategol gan yr iDAG. Dengys ymatebion i'n harolwg fod aelodau'r bwrdd yn fodlon gyda'r wybodaeth a ddarparwyd. Canfu ein hadolygiad o fformat adroddiadau'r Bwrdd ei fod yn rhoi gwybodaeth resymol am dueddiadau ac yn cefnogi monitro'r perfformiad gwirioneddol yn erbyn yr hyn a gynlluniwyd. Fodd bynnag, y mae lle i ystyried mwy o ddefnydd o wybodaeth weledol a rhagfynegi i gryfhau mwy ar adrodd a chraffu yn gyffredinol.

69 Nid oes pwyllgor o'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau ar gynnydd yn erbyn y CTCI. Penderfyniad bwriadol gan y Bwrdd oedd hwn, a hwy sydd yn goruchwylio ac yn craffu'n uniongyrchol ar ddatblygu a chyflwyno'r CTCI. Dengys ymatebion i'n harolwg fod aelodau'r bwrdd yn fodlon gyda'r amser a neilltuir i graffu yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac yr oedd ein cyfweliadau gyda'r staff yn adlewyrchu hyder y sefydliad yn y trefniadau monitro, adrodd a chraffu. Fodd bynnag, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth ystyried ei threfniadau presennol yng ngoleuni'r gofynion adrodd at y dyfodol sydd wedi eu gosod allan yn Fframwaith Cynllunio'r GIG 2017-20[4] sydd yn mynnu'r isod fel isafswm:

- grŵp gweithred i oruchwylio cyflwyno'r cynllun;
- is-bwyllgor neu grŵp o'r bwrdd i graffu a herio cynnydd a pherfformiad yn rheolaidd; ac
- adrodd bob dwy flynedd i'r bwrdd.

70 I gwrdd â'r gofynion hyn yn 2017, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth ystyried sut y bydd modd cwrdd â'r gofyniad i is-bwyllgor oruchwylio o fewn ei threfn bresennol o gyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau chwarterol. Hefyd, dylai cwmpas presennol yr iDAG, sydd yn canolbwyntio'n bennaf ar hyn o bryd ar y rhaglenni newid strategol, ymgorffori goruchwylio yn rheolaidd y camau ehangach sy'n sail i'r CTCI.

[4] NHS Planning Framework 2017-20

Mae trefniadau rheoli rhaglenni ar gael, ac er mai cyfyngedig yw'r capasiti, mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu sgiliau rheoli rhaglenni y staff

71 Cefnogir cyflwyno CTCI yr Ymddiriedolaeth a'r rhaglenni newid strategol cysylltiedig gan agwedd ystyrlon o gynllunio prosiectau. Cafodd arfau a thechnegau 'Managing Successful Programmes' (MSP) eu mabwysiadu a'u teilwrio i reoli'r pedair rhaglen newid allweddol sy'n sail i'r CTCI. Y rhaglenni hyn yw Cludo Cleifion heb fod Achosion Brys; 111 Pathfinder; Canolfannau Cyswllt Clinigol a Moderneiddio Clinigol.

72 Sefydlwyd bwrdd rhaglen i arwain ar bob newid strategol, gyda chyfarwyddwr gweithredol yn cael ei neilltuo i bob un. Mae Grŵp Cyflwyno Sicrwydd y CTCI (iDAG) yn dwyn ynghyd yr uwch-swyddogion cyfrifol am y pedair rhaglen newid strategol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd, i fonitro cynnydd a datrys unrhyw broblemau rhwng y rhaglenni.

73 yn 2015, amlygodd gwaith Asesiad Strwythuredig yr angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau adnoddau digonol i gefnogi'r rhaglen rheoli newid, fel bod cyflymdra yn cael ei gynnal ac i gael cyn lleied ag oedd modd o lithriad. Dangosodd yr Ymddiriedolaeth fwriad i ddatblygu 'canolfan rheoli rhaglenni', ond bu capasiti yn ffactor a gyfyngodd ar gyrraedd y nod hwn hyd yma. Mae Arddangosyn 2 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 2:Cynnydd ar argymhellion cynllunio strategol 2015

Mae'r tabl hwn yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion 2015 yn ymwneud â chynllunio strategol.

| 2015 Argymhelliad | | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|---|
| A4 | Dylid rhoi digon o adnoddau i gefnogi'r rhaglen rheoli newid (Rhaglen Portffolio) fel y cynhelir cyflymdra a lleihau llithriad. | Cwblhawyd yn rhannol.<br>Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu swyddfa raglenni ffurfiol i reoli rhaglenni newid strategol. Erys hyn yn uchelgais, er bod capasiti timau cynllunio a chyllid yn ffactorau sy'n cyfyngu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi ac yn datblygu sgiliau rheoli rhaglen presennol o fewn i'r sefydliad yn y cyfamser, er y bydd sefydlu 'cronfa' ddigonol o wybodaeth, sgiliau a gallu rheoli rhaglenni/prosiectau yn hanfodol i lwyddiant hyn.<br>Ymddengys bod yr Ymddiriedolaeth yn cynnal cyflymdra digonol i gyflwyno'r pedair rhaglen newid strategol ar hyn o bryd, ond bydd angen cadw golwg ar gapasiti a chyflymdra cyflwyno'r rhaglenni. |

Effeithlonrwydd a sicrwydd y Bwrdd – mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos cyfeiriad cadarnhaol o ran datblygu ei threfniadau llywodraethiant a sicrwydd, ond y mae mwy i'w wneud

74 Seilir y casgliadau sy'n sail i'r casgliad hwn ar ein hadolygiad o agwedd yr Ymddiriedolaeth at fapio sicrwydd a datblygu ei Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, ac effeithiolrwydd y Bwrdd a'i strwythurau llywodraethiant. Yr ydym hefyd wedi adolygu'r cynnydd a wnaed i ymdrin â materion gwella a nodwyd o'r blaen. Mae ein canfyddiadau allweddol i'w gweld isod.

Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd– mae'r Ymddiriedolaeth wedi meddwl am ei drefniadau sicrwydd ac wedi sefydlu'r elfennau adeiladu hanfodol, ond nid yw eto wedi dogfennu ei Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd na gweithredu ei Fframwaith Rheoli Risg newydd yn llawn

75 Mae gan bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth strwythurau na phrosesau llywodraethiant i geisio a darparu sicrwydd am y gwasanaethau a ddarperir, fod risgiau yn cael eu rheoli a bod y sefydliad yn gweithredu yn unol â gofynion cyfreithiol ac eraill. Mae cyrff y GIG yn sefydliadau cymhleth ac yn gweithredu mewn amgylchedd deinamig. Mae'n bwysig felly fod byrddau yn parhau i adolygu eu trefniadau llywodraethiant a sicrwydd ac yn bodloni eu hunain fod y sicrwydd y maent yn dibynnu arnynt yn gymesur, wedi eu targedu yn briodol ac yn ymdrin â hyd a lled portffolio risg cyffredinol y sefydliad.

76 Mae mapio sicrwydd[5] yn erfyn a ddefnyddir yn gynyddol i adnabod yn systemaidd a mapio'r sicrwydd sydd ei angen ynghylch risgiau allweddol er mwyn cyrraedd amcanion y sefydliad. Gall y broses fapio helpu sefydliadau i amlygu unrhyw fylchau yn eu sicrwydd, neu ddyblygu diangen ar y prosesau sicrwydd. Mae mapio o'r fath yn helpu i ddylunio fframwaith sicrwydd effeithiol, sydd yn asio risgiau a sicrwydd i'r systemau rheoli priodol a'r trefniadau craffu.

77 Y man cychwyn yw'r datganiad clir o amcanion y sefydliad. Fe welsom fod amcanion yr Ymddiriedolaeth yn canoli ar y boblogaeth a'r cleifion gyda digon o fanylder i helpu i bennu'r risgiau i gyrraedd pob amcan. Yr oedd aelodau'r Bwrdd naill ai yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' fod yr Ymddiriedolaeth wedi nodi sut beth fydd llwyddiant yn erbyn yr amcanion a bod yr amcanion wedi eu mynegi mewn dull ystyrlon trwy'r CTCI. Mae lle, fodd bynnag, i beri bod mesurau ar gyfer amcanion yn canoli mwy ar ddeilliannau, fel bod sicrwydd yn mynd y tu hwnt i'r 'hyn sy'n cael ei wneud' i ganolbwyntio mwy ar y gwahaniaeth a wnaeth y gweithredoedd. Mae lle hefyd i wneud yr amcanion yn fwy amlwg yn y CTCI am nad ydynt yn cael eu crybwyll ar hyn o bryd tan dudalen 58.

78 Mae angen trefniadau rheoli risg corfforaethol cadarn i fod yn sylfaen i drefniadau sicrwydd effeithiol. Yn dilyn adolygiad mewnol o reoli risg yn Hydref 2015, gwnaeth yr Ymddiriedolaeth waith sylweddol i ddatblygu strategaeth rheoli risg newydd ac y

[5] Fframweithiau Sicrwydd Trysorlys EM Rhagfyr 2012

mae hefyd wedi adolygu a diwygio'r cofrestri risg y cyfarwyddiaethau a chorfforaethol. Er bod y strategaeth newydd i reoli risg wedi ei chymeradwyo, nid yw wedi ei rhoi ar waith yn llawn eto. Disgwylir y bydd wedi gwreiddio yn llawn erbyn Mawrth 2017, yn ôl cynllun gweithredu'r Ymddiriedolaeth.

79 Mae'r Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd yn datblygu ei threfniadau ar gyfer sicrhau bod y fframwaith risg yn cael ei gymhwyso'n weithredol yn gyson, gyda hyfforddiant i reolwyr sydd â chyfrifoldeb am risg a datblygu atebion TGCh gan gynnwys defnyddio Datix[6]. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cydnabod yr angen i ddatblygu mwy o gysondeb mewn sgorio risg yn unol â'i archwaeth risg a meini prawf asesu. Dylai'r camau hyn gefnogi'r Ymddiriedolaeth i gyrraedd ei amcan o ddod yn 'sefydliad galluog i risg' erbyn 2018-19.

80 Mae trefniadau ar gyfer ceisio a chael sicrwydd yn bodoli, gyda chraffu ar risgiau a sicrwydd ar gyfer pob amcan wedi'i fapio i bwyllgorau penodol. Mae rhaglenni gwaith pwyllgorau yn cael eu hadolygu'n chwarterol gan grŵp y Cadeirydd i ymdrin ag unrhyw fylchau neu ddyblygu mewn sicrwydd, ac fe greffir yn chwarterol ar y gofrestr risg gorfforaethol gan y pwyllgorau a neilltuwyd gan y Bwrdd. Mynegodd aelodau'r Bwrdd a ymatebodd i'n harolwg hyder yng ngallu'r Ymddiriedolaeth i adolygu ac addasu trefniadau llywodraethiant; yr oeddent yn teimlo hefyd fod eglurder ynghylch rôl pwyllgorau mewn tynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion oedd yn achosi pryder. Yr oedd y rhan fwyaf o aelodau'r bwrdd hefyd yn cytuno fod yr Ymddiriedolaeth yn effeithiol o ran nodi'r sicrwydd sydd eu hangen er bod rhai aelodau yn teimlo y gellid cryfhau hyn.

81 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod mapio risg a sicrwydd (fel y'i disgrifir ym mharagraff 77) fel erfyn defnyddiol i helpu'r sefydliad lunio ei fframwaith sicrwydd. Yn ystod 2016, gosododd yr Ymddiriedolaeth elfennau adeiladu pwysig i fod yn sail i ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn ffurfiol. Yn ychwanegol at y gwaith o ddiffinio amcanion y sefydliad, datblygu strategaeth rheoli risg ac adolygu cofrestri risg, bu'r Bwrdd wrthi yn ystyried cynnwys a dyluniad ei Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn ystod 2016. Dywedodd holl aelodau'r Bwrdd a ymatebodd i'n harolwg eu bod wedi bod yn rhan o'r broses.

82 Mae'r Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd yn gweithio i gwblhau ei fapio sicrwydd ond nid ydynt eto wedi dogfennu a chytuno ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Dylid gorffen y gwaith hwn rhag blaen, gan fod datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd cadarn yn argymhelliad allweddol a wnaed yn 2015. Mae Arddangosyn 3 yn crynhoi'r cynnydd a wnaed.

[6] Mae Datix yn feddalwedd diogelwch i gleifion ar gyfer rheoli risgiau gofal iechyd

Arddangosyn 3: cynnydd ar argymhelliad  Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd 2015

Mae'r tabl hwn yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhelliad[ion] yn 2015 ynghylch datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

| 2015 Argymhelliad | Disgrifiad o gynnydd |
| --- | --- |
| A1 Dylai'r Ymddiriedolaeth ddatblygu a gweithredu yn llawn Fframwaith Rheoli Risg a Sicrwydd y Bwrdd. | Ar y gweill ond heb eto fod yn gyflawn.<br>Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi yn cyflawni ei bwriad i ddatblygu a gweithredu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a Fframwaith Rheoli Risg erbyn Mawrth 2017.<br>Datblygwyd strategaeth rheoli risg a'i chymeradwyo er nad yw'r fframwaith gweithredol wedi gwreiddio'n llawn eto.<br>Bwriwyd ymlaen a gwaith i ddylunio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd er nad yw eto wedi ei ddogfennu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd. |

Effeithlonrwydd y Bwrdd a Phwyllgorau: cymerodd yr Ymddiriedolaeth gamau i gryfhau trefniadau llywodraethiant, ond erys rhai gwendidau a all gyfyngu ar effeithlonrwydd cyffredinol y trefniadau.

83 Mae'r Bwrdd yn hyrwyddo diwylliant agored, sy'n canoli ar ansawdd. Mae'r fframwaith ymddygiad sefydliadol  a datblygu strategaeth ansawdd cyntaf yr Ymddiriedolaeth y cytunwyd arno yn ddiweddar yn 2016 yn cefnogi nod y sefydliad o gyflwyno deilliannau cadarnhaol i gleifion. Mae'r trafodaethau yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd yn canoli ar y cleifion ac ar ansawdd. Mae'r Bwrdd, a'i Bwyllgor Ansawdd, Profiad y Cleifion a Diogelwch yn defnyddio storiâu'r cleifion i helpu i seilio'r cyfarfod mewn ffocws ar y cleifion. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cyflwyno cylch daearyddol i gyfarfodydd y Bwrdd, sy'n gwneud y Bwrdd yn fwy amlwg ar draws y rhanbarthau a rhoi mwy o gyfle i'r staff a rhanddeiliaid eraill fynychu, arsylwi a chyfrannu at gyfarfodydd. Mae storiâu cleifion a gyflwynir i'r Bwrdd yn cael eu derbyn yn ystod sesiwn rhan ddeiliaid y cyfarfod, a thrwy hynny ddwyn y staff a'r partneriaid i mewn i ystyried profiad y cleifion.

84 Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn rhedeg yn effeithiol ac yn cwrdd â'r holl ofynion trefniadol ffurfiol. Mae gofynion adrodd blynyddol hefyd yn cael eu hateb o fewn yr amseroedd angenrheidiol, er mai cyfyngedig oedd yr ymdriniaeth o wybodaeth llywodraethiant yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol. Cwblhaodd y Bwrdd hunanasesiad yn ystod 2016, ond bwriada adolygu'r agwedd at hunanasesiadau gan y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn 2017. Ar hyn o bryd, dim ond y Pwyllgor Archwilio oedd wedi hunanasesu i adolygu ei effeithiolrwydd ac y mae angen agwedd fwy cyson a rheolaidd.

85 Mae’r Bwrdd wedi ymrwymo i dryloywder yn ymddygiad y Bwrdd a busnes pwyllgorau ac mewn adrodd cyhoeddus. Cyhoeddir agenda a chofnodion y Bwrdd ar wefan yr Ymddiriedolaeth ynghyd a’r rhai ar gyfer pob un o’i bwyllgorau. Mae’r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio i raddau helaeth â gofynion newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth[7] a ragnodir er nad oedd yn hawdd cyrchu rhai eitemau (cynllun blynyddol busnes y Bwrdd; cynlluniau ymwneud â dinasyddion; a pholisïau cwynion/lleisio pryderon) ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Hefyd, mae angen egluro’r meini prawf ynghylch a ddylid ystyried eitemau agenda mewn cyfarfodydd agored neu gaeedig y Bwrdd a Phwyllgorau fel bod rhesymeg gliriach am y penderfyniad. Byddai gwarchod cyfrinachedd gwybodaeth trydydd parti sensitif neu am gleifion /staff yn ystyriaeth glir wrth bennu’r meini prawf.

86 Yr oedd gan yr Ymddiriedolaeth garfan sefydlog o aelodau annibynnol o’r bwrdd ers ffurfio’r aelodaeth bresennol yn 2014. Mae rhaglen ddatblygu ffurfiol i’r Bwrdd, ac yr oedd aelodau’r bwrdd a ymatebodd i’n harolwg yn gyffredinol yn cytuno ei bod yn gefnogol o ran datblygu sgiliau a hyder ar gyfer eu swyddogaethau sicrwydd a chraffu. Hefyd, defnyddir Mantoli Personol ac Adolygiadau Datblygu (MPAD) er mwyn sicrhau y nodir unrhyw anghenion datblygu ac yr ymdrinnir â hwy. Bwriada’r Ymddiriedolaeth hefyd adolygu ei rhaglen gyfredol o gynefino i aelodau annibynnol yn unol â recriwtio yn y dyfodol, gyda dau aelod yn dod i ddiwedd eu cyfnod yn 2017.

87 Cymhwysodd yr Ymddiriedolaeth agwedd matrics 7x7 at ei llywodraethiant sefydliadol, gan asio pob aelod annibynnol o’r bwrdd a chyfarwyddwr gweithredol, uned weithredol a bwrdd iechyd cyfatebol. Mae amcanion personol yn cael eu mapio trwy’r fframwaith gan sicrhau llinyn arian trwy bob swyddogaeth a rôl. Enwebwyd yr Ymddiriedolaeth am wobr CIPFA am y strwythur hwn, ac edrychir ar y model fel un cadarnhaol er mwyn cynnal datblygiad aelodau annibynnol a llunio perthynas gyda’r byrddau iechyd. Fodd bynnag, rhaid sicrhau fod sgiliau penodol aelodau annibynnol yn hygyrch ar draws yr unedau gweithredol ac nid yn unig o fewn y rhai a neilltuwyd. Dylai’r Ymddiriedolaeth hefyd fod yn wyliadwrus ynghylch unrhyw risgiau i annibyniaeth a allai ddatblygu dros amser, ac ystyried sut i liniaru risgiau o’r fath, er enghraifft trwy gylchdroi aelodau dros y tymor canol i hir.

88 Mae trefniadau ar gael i ddatblygu cynlluniau gwaith blynyddol pwyllgorau, adolygu unrhyw fylchau neu ddyblygu mewn sicrwydd a hwyluso croesgyfeirio rhwng Pwyllgorau. Mae’r gwaith hwn yn cael ei hwyluso trwy grŵp y Cadeirydd, lle mae cadeiryddion y Bwrdd a’r pwyllgorau yn cyfarfod yn ffurfiol bob chwarter i fonitro ac adolygu trefniadau. Mae’r Bwrdd yn derbyn cofnodion pob cyfarfod pwyllgor ac y mae mecanweithiau ar gael hefyd i godi unrhyw faterion o bryder a all ymddangos. Fodd bynnag, mae cyfle i ystyried defnyddio adroddiadau amlygu ac eithrio o bwyllgorau i gryfhau’r adrodd cyffredinol am sicrwydd i’r Bwrdd.

[7] WHC/2016/033 – Cyhoeddi gwybodaeth ar wefannau Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau’r GIG

89 Mae aelodau pwyllgorau wedi dweud wrthym am welliannau ym mhrydlondeb papurau pwyllgor, er i ni sylw ar enghreifftiau o dderbyn papurau yn hwyr. Mae angen parhau i ganolbwyntio felly er mwyn sicrhau nad yw agendâu pwyllgorau a rhaglenni gwaith yn cael eu tarfu oherwydd papurau hwyr a bod gan aelodau pwyllgorau ddigon o amser i adolygu'r holl wybodaeth cyn cyfarfodydd.

90 Gwelsom drafodaeth agored gyda chwestiynau a herio cyffredinol dda yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad y Cleifion a Diogelwch, gyda chofnodion ffurfiol yn cael eu defnyddio i olrhain camau gweithredu y cytunwyd arnynt gan y pwyllgorau. Cefnogir gwaith y Pwyllgor Archwilio gan bresenoldeb cyson y Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau, sydd yn cymryd y cyfrifoldeb dros sicrhau yr ymdrinnir â materion a godwyd gan y Pwyllgor ac sy'n galw am gamau gan y rheolwyr. Fodd bynnag, gallai'r Pwyllgor ystyried y gallai mwy o uwch-swyddogion fynychu fel rhan o'u trefniadau 'dal i gyfrif', i gryfhau mwy ar herio a chraffu. Mae craffu ar gynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion yr archwiliad a defnyddio gwybodaeth erfyn olrhain yn cael ei drafod yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

91 Mae Archwilio Mewnol yn gydran allweddol o gamau rheoli mewnol yr Ymddiriedolaeth, ac y mae'r rhaglen waith, yr adroddir amdani trwy'r Pwyllgor Archwilio, yn parhau i fod wedi ei strwythuro'n dda a chynhwysfawr. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod fod angen cryfhau gwasanaethau gwrth-dwyll lleol ac y mae'n cymryd camau i wella trefniadau ac effeithiolrwydd y gwasanaeth.

92 I gefnogi'r canoli ar sicrwydd ansawdd a dysgu sefydliadol, sefydlir grŵp llywio newydd dan arweiniad y rheolwyr (QAIL). Bydd y grŵp llywio yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad y Cleifion a Diogelwch (QUEST), ac yn cyd-gordio'r sicrwydd sy'n deillio o'r amrywiol is-grwpiau rheoli sy'n sylfaen i drefniadau ansawdd a diogelwch. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod fod angen mapio llif y gwahanol is-grwpiau a llif yn ffurfiol, ac y mae'n datblygu cynlluniau i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

93 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn ymwybodol fod angen cryfhau'r broses i adolygu, cyfoesi a chymeradwyo polisïau a bwriada ddatblygu 'Polisi ar Bolisïau' i egluro'r trefniadau. Mae nifer o bolisïau wedi dyddio ac angen eu hadolygu a'u cyfoesi, gan gynnwys polisïau diogelwch gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth. Rhaid cwblhau gwaith i adnabod, adolygu a chyfoesi polisïau o'r fath ar frys i leihau'r risg i'r sefydliad. Yn yr un modd, mae'r strategaeth TGCh a gweithdrefnau gweithredu safonol hefyd wedi dyddio ac y mae angen eu cyfoesi.

94 Yn 2015 gwnaethom yr argymhellion isod ynghylch effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau. Mae Arddangosyn 4 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 4: cynnydd ar argymhellion 2015 am effeithiolrwydd y Bwrdd a Phwyllgorau

Mae'r tabl yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhelliad 2015 ynghylch effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau

| 2015 Argymhellion | | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|---|
| A2 | Dylid rhoi pwyslais ar gwblhau prosesau corfforaethol (megis adolygu risg a chyfoesiadau argymhellion yr archwiliad) gan uwch-swyddogion ac uwch-reolwyr i gryfhau llywodraethiant. | Camau ynghylch adolygu risg ac argymhellion yr archwiliad yn gyflawn.<br>Adolygwyd cofrestri risg, mae'r Fframwaith Rheoli Risg newydd yn cael ei weithredu a gwnaed gwaith i lanhau a gwella fformat yr erfyn olrhain argymhellion yr archwiliad.<br>Erys rhai problemau a fyddai, o'u datrys, yn cryfhau llywodraethiant, gan gynnwys:<br>• datblygu polisi i adolygu, cyfoesi a chymeradwyo polisïau;<br>• cwblhau adolygu a chyfoesi polisïau sydd wedi dyddio erbyn hyn; a<br>• datblygu mwy a defnyddio'r erfyn olrhain archwilio (fel y trafodir yn adran nesaf yr adroddiad hwn). |

| 2015 Argymhellion | | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|---|
| A3 | Dylai'r Ymddiriedolaeth ddatblygu a gweithredu'n llawn ei fframwaith cynllunio a rheoli perfformiad. Dylai hefyd wella ei dull o adrodd am berfformiad fel yr amlygwyd yn ein Hadroddiad Archwilio Blynyddol am 2014. | Cwblhawyd, gyda pheth lle i ystyried cyfoethogi mwy ar y fformat adrodd.<br>Mae gan yr Ymddiriedolaeth fframwaith cynllunio a pherfformiad newydd a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym Mehefin 2016.<br>Datblygwyd adroddiad ansawdd a pherfformiad integredig (IQPR) newydd. Mae'r cynnwys, seiliedig ar gyfres fwy cynhwysfawr o lawer o ddata, wedi ei wella'n sylweddol.<br>Erys peth lle i gyfoethogi mwy ar fformat yr adroddiad a gyflwynir i'r Bwrdd i gynnwys:<br>• gwell cydbwysedd rhwng gwybodaeth feintiol a'r naratif esboniadol cefnogol i helpu dehongli a rhoi mwy o fewnwelediad ar ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad;<br>• adrodd cryfach am eithriadau;<br>• mwy o ddefnydd o feincnodi a rhagfynegi;<br>• mwy o ddefnydd o graffiau a chymhorthion gweledol eraill i helpu i ddehongli data; a<br>• nodi cyfrifoldebau am feysydd perfformiad ac ar gyfer camau lliniaru a nodwyd. |

### Cynnydd wrth ymdrin ag argymhellion blaenorol – gwnaeth yr Ymddiriedolaeth gynnydd da wrth ymdrin ag argymhellion yr asesiad strwythuredig blaenorol, ac y mae'n cydnabod fod angen mwy o waith i ddatblygu a gwreiddio newidiadau yn llawn

95 Mae ein gwaith Asesiad Strwythuredig yn 2016 wedi adolygu'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth i ymdrin â'r argymhellion a wnaed llynedd. Disgrifiwyd argymhellion yn ymwneud â chynllunio strategol, effeithiolrwydd y bwrdd a phwyllgorau, a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn adrannau cynharach yr adroddiad hwn. Disgrifir y cynnydd a wnaed wrth ymdrin â gweddill yr argymhellion yn Arddangosyn 5. Wrth ddod i'n casgliad, fodd bynnag, yr ydym wedi cadw mewn cof gynnydd ar y pum argymhelliad.

Arddangosyn 5: cynnydd ar weddill argymhellion 2015

Mae'r tabl hwn yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion 2015 eraill nad ymdriniwyd â hwy yn rhannau cynharach yr adroddiad hwn.

| 2015 Argymhelliad | | Disgrifiad o gynnydd |
|---|---|---|
| A5 | Gyda chytundeb wedi ei wneud ar y model clinigol yn awr a mwy o eglurder am anghenion y gweithlu, dylai'r Ymddiriedolaeth weithio'n gyflym i ddatblygu cynllun credadwy a rhwydd ei gyrraedd ar gyfer ei stad. | Wrthi ond heb ei gyflawni eto<br>Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi yn adolygu ei strategaeth stadau. Mynegodd ei bwriad i weithio gyda phartneriaid i gynyddu capasiti a gwerth am arian i sefydlu atebion i gwestiynau stadau, gan adeiladu ar gomisiynu'r Ganolfan Adnoddau Gwasanaethau Ambiwlans a Thân (AFSRC) newydd cyfun yn Wrecsam. |

96 Yn ein Hasesiad Strwythuredig yn 2015, fe wnaethom amlygu gwelliant yn ansawdd a chywirdeb data am y gweithlu a datblygu agwedd gadarnach at gynllunio gweithlu. Fe wnaethom sylwi hefyd fod heriau'n parhau o ran recriwtio a rheoli'r gweithlu. Fodd bynnag, yr oedd yr Ymddiriedolaeth wedi gosod targedau gwelliant i gael 2% o ostyngiad mewn in salwch, 85% o gwblhau mantoli personol ac adolygiadau datblygu (MPAD), a 85% o gydymffurfio â hyfforddiant cynlluniedig erbyn Mawrth 2016. Er na wnaethom unrhyw argymhellion ffurfiol ynghylch rheoli gweithlu yn 2015, yr ydym wedi ystyried y cynnydd a wnaed fel rhan o'n gwaith eleni. Dyma a welsom:

- Gwnaed cynnydd ar leihau swyddi gwag gweithredol, sydd, ar 5%, yn gryn welliant ar y blynyddoedd blaenorol;
- Nid yw cyfraddau salwch yr Ymddiriedolaeth wedi gostwng a hwy yw'r uchaf yng Nghymru, sef 7% yn Nhachwedd 2016;
- Yr oedd cyfraddau cwblhau MPAD yn 42% yn Nhachwedd 2016 ac erys gwella cwblhau yn flaenoriaeth; ac
- Erys cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol yn isel – y cyfartaledd yw 37% i'r Ymddiriedolaeth. Dengys modiwlau hyfforddiant penodol gyfraddau presenoldeb gwael iawn, gyda llywodraethiant gwybodaeth ar 9% yn unig.

97 Mae'r Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd yn adolygu ei hyfforddiant, gan ymgorffori gwersi o'r adolygiad galw a gallu, a nodi'r sgiliau sydd eu hangen i wynebu galwadau yn y dyfodol ar y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae angen i'r Ymddiriedolaeth hefyd barhau i ganolbwyntio ar ymdrin â lefelau salwch uchel a gwella cyfraddau cwblhau MPAD a hyfforddiant gorfodol.

98 Mae cyfathrebu’r staff hefyd yn parhau yn broblem heriol i’r Ymddiriedolaeth, yn enwedig o ystyried natur ddaearyddol wasgaredig gweithlu’r Ymddiriedolaeth. Cymerodd yr Ymddiriedolaeth nifer o gamau yn ystod 2016 i gryfhau cyfathrebu ac ymwneud â’r staff gan gynnwys:

- penodi arweinydd cyfathrebu staff i adolygu a gwella dulliau cyfathrebu cyfredol;
- cyflwyno ymweliadau aelodau’r Bwrdd a gorsafoedd a ‘theithiau’ mewn ambiwlansys;
- gwahodd staff i ddigwyddiadau rhanddeiliaid, gyda dros fil o aelodau staff yn cymryd rhan trwy waith gwerthoedd ac ymddygiad;
- gwahodd staff i gyfarfodydd y Bwrdd ar eu cylch daearyddol; a
- mwy o ddefnydd o dechnoleg a chyfryngau cymdeithasol.

99 Dengys canlyniadau Arolwg Staff GIG Cymru am 2016 i’r Ymddiriedolaeth welliannau cadarnhaol ers 2013, er bod yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod fod mwy o waith i’w wneud. Yn ychwanegol at ddefnyddio a dysgu o ganlyniadau arolwg GIG Cymru 2016, bydd angen i’r Ymddiriedolaeth barhau i adeiladu ar ei gwaith cyfathrebu staff ac ymwneud â hwy. Dylai ystyried ffyrdd o gasglu barn y staff a thystiolaeth am effaith ei gwaith cyfathrebu gyda’r staff. Ym mis Ionawr 2017 byddwn yn cychwyn ar ein hadolygiad dilynol o’r cynnydd a wnaed gydag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol a ddeilliodd o adolygiad 2015 o ‘Bryderon Staff’.

100 Yn ychwanegol at adolygu’r camau a gymerwyd i ymdrin ag argymhellion ein Hasesiad Strwythuredig yn 2015 a chyfleoedd gwella, yr ydym hefyd wedi ystyried effeithiolrwydd trefniadau’r Ymddiriedolaeth i reoli ac ymateb i argymhellion ein harchwiliad.

101 Bu erfyn olrhain argymhellion yr archwiliad i logio camau’r rheolwyr yn erbyn argymhellion archwiliadau mewnol ac allanol ar gael ers mis Awst 2014 ac fe’i derbynnir gan y Pwyllgor Archwilio ym mhob un o’i gyfarfodydd chwarterol. Yn ystod 2016, mae’r Pwyllgor Archwilio wedi herio cyflymdra cynnydd wrth ymdrin â nifer o argymhellion yr archwiliad, gyda rhai eitemau yn dyddio’n ôl i 2013-14. O ganlyniad, adolygodd y rheolwyr gyflawnder camau a statws yr holl argymhellion a gynhwyswyd yn yr erfyn olrhain oedd yn dyddio cyn Ebrill 2016. Mae’r gwaith hwn wedi cadw mewn cof Adroddiad Cyfansawdd Archwilio Mewnol a adolygodd yr holl argymhellion archwiliad mewnol na weithredwyd arnynt ym Mawrth 2016.

102 Rhoddwyd adroddiad am adolygiad yr erfyn olrhain i’r Pwyllgor Archwilio yn Rhagfyr 2016, gan roi darlun cliriach o’r hyn a wnaed a’r hyn sydd eto i’w wneud yng nghyswllt y cyfnod cyn argymhellion archwiliad mewnol cyn Ebrill 2016. Fodd bynnag, er mwyn cynnal yr erfyn olrhain fel erfyn rheoli effeithiol, bydd yn bwysig i’r Ymddiriedolaeth sicrhau’r canlynol:

- fod gwybodaeth yr erfyn olrhain yn cael ei gyfoesi’n rheolaidd gan yr arweinwyr gweithredol sy’n gyfrifol am argymhellion unigol, gan gynnwys lle’r ystyrir bod camau’r rheolwyr i ymdrin yn llawn â’r argymhellion yn gyflawn; a

- bod yr erfyn olrhain yn cynnwys holl argymhellion yr archwiliad, fel yn ystod 2016, nad oedd y rhai oedd yn deillio o'n gwaith yn 2015 wedi eu cynnwys yn gyson.

103 Derbyniwyd ymateb y rheolwyr i argymhellion Asesiad Strwythuredig 2015 gan y Pwyllgor Archwilio ym Mai 2016 ac fe'i cynhwyswyd yn yr erfyn olrhain a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym Medi 2016. Mae ein hadolygiad o gynnydd yn gyffredinol gyson â statws y camau yr adroddodd y rheolwyr amdanynt bryd hynny. Fodd bynnag, nid oedd yr argymhellion a ddeilliodd o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2015 ar 'Bryderon Staff' wedi eu cynnwys yn yr erfyn olrhain, ac yr oedd y cyfoesiad ym mis Rhagfyr yn canolbwyntio ar yr argymhellion archwilio mewnol fu'n destun yr adolygiad diweddar gan y rheolwyr. Mae hyn wedi cyfyngu ar graffu cyffredinol ar gynnydd yn erbyn argymhellion yr archwiliad allanol yn ystod 2016. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o'r sefyllfa hon a bwriada ymdrin â hyn yn 2017.

104 Mae'r erfyn olrhain yn nodi'r uwch-swyddog cyfrifol, y camau y bwriedir eu cymryd, amserlenni, a manylion camau a gwblhawyd neu broblemau a gododd ers yr adroddiad blaenorol ar gyfer pob argymhelliad yn y log fesul blwyddyn. Fodd bynnag, nid oes crynodeb cyffredinol o nifer yr argymhellion sy'n gyflawn, ar y gweill neu'n hwyr. Gallai hyn helpu i graffu a herio cynnydd, gan helpu i weld yn sydyn os nad yw argymhellion am archwiliad penodol, maes busnes neu gyfarwyddiaeth yn bwrw ymlaen yn ddigon cyflym. Dylai'r Pwyllgor ystyried manteision crynodebau o adroddiadau a cheisio cael mwy o uwch-swyddogion arweiniol perthnasol i drafod ymateb y rheolwyr, a lle bo angen, gyflymdra cynnydd fel rhan o'i drefniadau 'dal i gyfrif'.

# Atodiad 1

## Ymateb y rheolwyr i argymhellion asesiad strwythuredig 2016

Arddangosyn 6: Ymateb y rheolwyr

Mae'r tabl hwn yn gosod allan argymhellion 2016 ac ymateb y rheolwyr

| Cyf | Deilliant/budd arfaethedig | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (Ie) | Derbyniwyd (Do/ Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Sicrhau y cyflwynir cynlluniau arbedion yn effeithiol | Datblygu cynlluniau cyflwyno mwy manwl i gefnogi rhaglenni gwella cost. | Ie | Do | Mae cynlluniau cyflwyno manwl ar gael ar gyfer pob cynllun, gyda'r canolbwynt allweddol ar y rhai â'r gwerth uchaf. Er bod y modd y mae cynlluniau gwella costau ac arbedion yn cael eu cynllunio, eu cyflwyno ac adrodd amdanynt wedi gwella yn sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, adolygir hyn ymhellach ar gyfer 2017/18. | Ebrill 2017 | Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh |

| Cyf | Deilliant/budd arfaethedig | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (Ie) | Derbyniwyd (Do/ Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A2 | Cryfhau camau i oruchwylio rheolaeth asedau | Ymdrin â'r gwelliannau angenrheidiol a nodwyd yn adroddiad cyfrifon SAC a'r Memorandwm Archwilio Cyfrifon Terfynol. | Ie | Do | Caiff hyn ei gymryd ymlaen fel y cytunwyd yn adroddiad cyfrifon SAC, gyda chyfoesiadau rheolaidd yn cael eu rhoi i'r tîm SAC lleol, gan gynnwys fel rhan o'r archwiliad interim am 2016/17. | Ebrill 2017 | Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh |
| A3 | Cryfhau trefniadau i fonitro cyflwyno CTCI | a) Rhoi ystyriaeth ehangach i gynnydd CTCI trwy'r grŵp cyflwyno a sicrwydd CTCI (iDAG), yn ychwanegol at fonitro rhaglenni newid strategol. | Ie | Do | Fel rhan o adnewyddu'r CTCI am 2017/18 - 2019/20, cynhelir adolygiad o fecanweithiau monitro cyflwyno i gryfhau mwy ar y trefniadau. Mae adolygiad Archwilio Mewnol o'r maes hwn hefyd yn digwydd. | Mawrth 2017 | Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad |
| | | b) Cadarnhau a fydd craffu ar gyflwyno CTCI yn aros fel un o swyddogaethau'r Bwrdd ynteu a gaiff ei gefnogi trwy drefniadau pwyllgor. | Ie | Do | Bydd Gweithgor y Cadeiryddion yn ystyried a fydd cyflwyno'r CTCI yn cael ei ystyried ar lefel Pwyllgor ac i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â Fframwaith Cynllunio'r GIG. | Mawrth 2017 | Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Cyf | Deilliant/budd arfaethedig | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (Ie) | Derbyniwyd (Do/ Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A4 | Gwella mwy ar drefniadau llywodraethiant y Bwrdd a Phwyllgorau a chamau rheoli mewnol | a) Sicrhau bod papurau pwyllgorau yn cael eu derbyn yn gyson brydlon. | | Do | Mae proses glir ar gyfer cyflwyno papurau'r Bwrdd a Phwyllgorau yn brydlon. Adolygir y rhain gyda golwg ar nodi gwell ffyrdd o gefnogi staff. | Mawrth 2017 | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| | | b) Diffinio meini prawf am yr hyn sydd yn eitemau agenda agored/caeedig. | Ie | Do | Adolygir canllawiau yn unol â'r uchod. | Mawrth 2017 | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| | | c) Datblygu defnydd mwy cyson o hunanasesiad fel erfyn i adolygu effeithiolrwydd pwyllgorau, yn ogystal â'r Bwrdd. | Ie | Do | Caiff hyn ei adolygu a chyflwynir erfyn hunanasesu cyson ar gyfer 2017/18. | Ebrill 2017 | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| | | d) Cwblhau mapio is-grwpiau rheoli a llif sicrwydd i'r Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch. | Ie | Do | Bwriedir cwblhau ymarferiad mapio llywodraethiant i'r Ymddiriedolaeth gyfan yn gynnar yn Ebrill 2017. Cynhaliwyd diwrnod Cynllunio Quest ym mis Medi a chytunwyd ar Gylch Gorchwyl y Grŵp Llywio Ansawdd. Mae hwn yn mapio'r is-grwpiau sy'n adrodd i'r GLlA a thrwy hynny i Bwyllgor Quest. | Ebrill 2017 | Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Cyf | Deilliant/budd arfaethedig | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (Ie) | Derbyniwyd (Do/ Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A4 | Gwella mwy ar drefniadau llywodraethiant y Bwrdd a Phwyllgorau a chamau rheoli mewnol | e) Datblygu'r gwasanaeth gwrth-dwyll fel y gall ymchwilio'n gadarn a mynd ati yn well i leihau'r risg o dwyll. | Ie | Do | Mae trefniadau i wella gwasanaethau lleol gwrth-dwyll wedi bwrw ymlaen yn dda, gydag adrodd gwell o lawer wedi ei nodi yn y Pwyllgor Archwilio yn Rhagfyr 2016. Bydd hyn hefyd yn cynnwys penodi Rheolwr GDLl parhaol llawn-amser yn yr Ymddiriedolaeth cyn diwedd 2016/17. I ategu hyn ymhellach, mae ymateb manylach yn cael ei baratoi ar gyfer NHS Protect i ymateb hefyd i feysydd eglurder y gofynnwyd amdanynt am sut yr ymatebodd yr Ymddiriedolaeth i rai argymhellion allweddol a wnaed yn eu hadroddiad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016. Gellir rhannu copi o hwn, os mynnir, unwaith iddo gael ei gwblhau. | Wrthi'n digwydd | Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh |

| Cyf | Deilliant/budd arfaethedig | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (Ie) | Derbyniwyd (Do/ Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyf | Deilliant/budd arfaethedig | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (Ie) | Derbyniwyd (Do/ Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| A5 | Cryfhau monitro a chraffu ar gynnydd yn erbyn argymhellion yr archwiliad | a) Gofalu bod yr erfyn olrhain yn cynnwys holl argymhellion yr archwiliad. | Ie | Do | Cyfoeswyd yr erfyn olrhain archwilio eisoes | Cwblhawyd | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| | | b) Ystyried defnyddio crynodeb o wybodaeth a mwy o bresenoldeb uwch-swyddogion yn y Pwyllgor Archwilio i wella craffu ar gynnydd. | Ie | Do | Adolygir hyn y tro nesaf y cyfoesir gwybodaeth yr Erfyn Olrhain Archwilio. | Mawrth 2017 | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| A6 | Sicrhau bod yr holl wybodaeth a ragnodwyd ar gael yn gyhoeddus | Asesu cynnwys a hygyrchedd gwefan yr Ymddiriedolaeth i gadarnhau bod gofynion Cylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 033 yn cael eu hateb yn llawn. | Ie | Do | Mae’r gwaith i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â CIC (2016) 033 eisoes yn digwydd. Yr oedd lefel uchel o gydymffurfio cyn cyhoeddi’r CIC ac felly mae’r gwaith yn canolbwyntio ar unrhyw eitemau nad ymdriniwyd â hwy o’r blaen. | Chwefror 2017 | Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Cyf | Deilliant/budd arfaethedig | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (Ie) | Derbyniwyd (Do/ Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A7 | Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau clir a chyfoes yr Ymddiriedolaeth ar gael | a) Datblygu ‘polisi ar bolisïau’ yn rhoi manylion am brosesau y cytunwyd arnynt i adolygu, cyfoesi a chymeradwyo polisïau | Ie | Do | Mae’r gwaith hwn yn mynd rhagddo a darparwyd adroddiadau i’r Tîm Gweithredol. Cyflwynir y ‘Polisi ar Bolisïau’ ac eitemau cysylltiedig eraill i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth | Mawrth 2017 | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| | | b) Cwblhau adolygu, cyfoesi a chymeradwyo polisïau allweddol sydd wedi dyddio erbyn hyn, gan gynnwys polisïau diogelwch gwybodaeth gweithdrefnau gweithredu safonol TGCh. | Ie | Do | Mae’r gwaith hwn yn mynd rhagddo ac y mae’n rhan o’r rhaglen waith y rhoddir manylion amdani uchod. | Ebrill 2017 | Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Cyf | Deilliant/budd arfaethedig | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (Ie) | Derbyniwyd (Do/ Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A8 | Lleihau cost salwch ac adeiladu sgiliau a gallu'r gweithlu | Cymryd camau pellach i leihau lefelau salwch a chynyddu cyfraddau cwblhau am hyfforddi gorfodol a mantoli personol ac adolygiadau datblygu. | Ie | Do | Mae cynlluniau ar gael i ostwng lefelau salwch yn yr Ymddiriedolaeth, a gwella cyfraddau DPP a MPAD. Gosodwyd targedau, daeth negeseuon clir o lefel Weithredol ac mae gan reolwyr unigol gyfrifoldeb dros leihau lefelau salwch yn eu meysydd eu hunain gyda chefnogaeth eu Partner Busnes AD. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu a'u hadnewyddu ym Mawrth / Ebrill 2017. Cyhoeddir data DPA misol am y gweithlu ar salwch, MPAD a hyfforddiant statudol a gorfodol, gydag adolygiadau perfformiad chwarterol a chrefu ar lefel Weithredol, ac adroddiadau chwarterol dwfn ar berfformiad y gweithlu i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau. | Ebrill 2017 i adolygu / adnewyddu cynlluniau | Cyfarwyddwr Gweithlu a CG |

| Cyf | Deilliant/budd arfaethedig | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (Ie) | Derbyniwyd (Do/ Na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A9 | Ymdrin yn llawn ag argymhellion yr asesiad strwythuredig blaenorol ar gyfer cryfhau trefniadau sicrwydd y bwrdd erbyn y dyddiad arfaethedig o 31 Mawrth 2017 | Cadw cyflymdra i wneud y canlynol:<br>a) Gweithredu'r fframwaith rheoli risg yn llawn a chymhwyso sgorio risg yn gyson | Ie | Do | Bydd recriwtio am weinyddwr System Datix yn dechrau ym mis Ionawr a bydd yn symud i E risg ac adrodd electronig. Ail-luniwyd strwythur y Gyfarwyddiaeth a bwrir ymlaen â'r gefnogaeth i dimau Gweithredol a Chorfforaethol er mwyn cefnogi cysondeb mewn asesu a sgorio risg | Ebrill 2017 | Cyfarwyddwr Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Cleifion |
| | | b) Cwblhau mapio sicrwydd y bwrdd, dogfennu a chymeradwyo Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | Ie | Do | Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. Cyflwynir dogfen derfynol Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i'r Bwrdd ym Mawrth 2017. | Mawrth 2017 | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| A10 | Gofalu bod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud y defnydd gorau o'i stad | Cwblhau datblygu strategaeth stadau gyfoes erbyn y dyddiad arfaethedig o 31 Mawrth 2017 | | Do | Mae'r gwaith hwn yn debygol o gael ei gyflwyno erbyn y dyddiad hwn, gyda chynlluniau i'r Bwrdd dderbyn drafft GGS wedi ei gyfoesi yn rhan o'i ddiwrnod datblygu ym mis Chwefror 2017. | Mawrth 2017 | Cyfarwyddwr Cyllid a TGCh |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru